Gwasanaethu Plant yn y Dyfodol Digidol

Ymateb i Bapur Ymgynghorol Awdurdod S4C gan
Ganolfan Ymchwil Mercator
Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu
Prifysgol Cymru Aberystwyth.

Manylion

Teitl yr ymgynghoriad: **Gwasanaethau Plant yn y Dyfodol Digidol**

At: Alun Thomas, Ysgrifennydd, S4C

Enw'r person sy'n ymateb: **Elin Haf Gruffydd Jones a Rhodri ap Dyfrig, Canolfan Mercator, Prifysgol Cymru Aberystwyth.**

Cynrychiolir (~~hunan neu~~ sefydliad/au)/ Teitl Swydd: **Cyfarwyddwr a Swyddog Ymchwil**

Oes modd i chi nodi eich oedran os o dan 16 mlwydd oed: Ddim yn berthnasol

Cyfeiriad (os heb ei dderbyn trwy e bost):

Cyfrinachedd / Datganiad

Beth ydych yn dymuno i S4C gadw'n gyfrinachol?

Dim ~~Enw /Manylion Cyswllt / Teitl Swydd / Oedran~~

Enw **Elin Haf Gruffydd Jones a Rhodri ap Dyfrig**

Arwyddwyd (os yn gopi caled)

1. A ydych yn cytuno â'n barn y bydd gwasanaeth i Blant yn gwella'r gwasanaeth cyhoeddus a gynigir yn y Gymraeg i Blant?

Cyflwyniad

Oddi ar 1988, mae Canolfan Mercator ym Mhrifysgol Cymru Aberystwyth wedi bod yn cydweithio gyda phobl a sefydliadau ar hyd a lled Ewrop i hyrwyddo'r astudiaeth o ieithoedd lleiafrifol a'r ymwybyddiaeth sydd o'r ffenomen hwn. Un o feysydd arbenigol Canolfan Mercator yma yn Aberystwyth yw cyfryngau ieithoedd lleiafrifol o fewn yr Undeb Ewropeaidd, ac oddi ar 1988 mae wedi bod yn casglu ac yn dadansoddi gwybodaeth am sefyllfa gyfryngol y cymunedau hynny ble siaredir iaith leiafrifol.

Darlledu a gwasanaethau rhyngweithiol mewn cymuned iaith leiafrifol

Wrth gymharu'r ddarpariaeth deledu yn yr iaith Gymraeg ar S4C gyda'r hyn sydd ar gael i gymunedau ieithyddol lleiafrifol ar draws Ewrop, gwelir ei bod ymysg y gorau ac fe gyfeirir yn gyson mewn cyhoeddiadau a chynadleddau ar ieithoedd lleiafrifol drwy'r byd at y sefyllfa Gymreig fel enghraifft o lwyddiant ym maes darlledu teledu mewn iaith leiafrifol. Wrth gwrs, rhai nodi mai dim ond 8[1] o blith y 60 o gymunedau iaith leiafrifol yn yr Undeb Ewropeaidd sydd yn meddu ar sianel deledu benodol ar gyfer gwasanaethu siaradwyr yr iaith honno a thrigolion y diriogaeth ble'i siaredir.

Nid oes lle i gredu fod arferion gwylio cynulleidfaoedd sydd yn siarad iaith leiafrifol yn sylweddol wahanol iawn i arferion gwylio cynulleidfaoedd eraill neu arferion gwylio sianeli mewn ieithoedd eraill. Fodd bynnag yn aml iawn oherwydd maint y gynulleidfa, mae gan gyfryngau ieithoedd lleiafrifol berthynas agos gyda'u cynulleidfaoedd. Un o nodweddion y berthynas yma yw bod y bwlch rhwng y 'sianel' a'r 'gynulleidfa' yn llai nac mewn sianeli mwyafrifol, yn enwedig yn yr oes analog, a bod cynulleidfaoedd cyfryngau ieithoedd lleiafrifol (a gwladwriaethau bychain) yn gyfarwydd â gweld eu hunain a'u cydnabod yn cymryd rhan mewn rhaglenni. Wrth gwrs, un o nodweddion yr oes aml-sianelog a rhyngweithiol yw bod y bwlch hwnnw rhwng y 'cynhyrchydd' a'r 'gynulleidfa' yn lleihau a bod rôl y gynulleidfa yn newid o fod yn un o 'dderbyn' rhaglenni yn unig i fod yn rhan o greu'r cynnwys.

Dylid manteisio ar y berthynas agos rhwng y cyfryngau a'r gynulleidfa yn y cyd-destun lleiafrifol ar gyfer rhyngweithio.

Mae hi'n anodd profi cysylltiad uniongyrchol cwbl ddigamsyniol fod datblygu cyfryngau mewn iaith leiafrifol yn arwain yn benodol at dwf ieithyddol neu at atal dirywiad ieithyddol. Serch hynny mae modd nodi fod y cymunedau ieithoedd lleiafrifol hynny sydd yn meddu ar wasanaeth darlledu sylweddol yn yr iaith yn llwyddo i berfformio yn well o ran mesuryddion cynaliadwyedd ieithyddol (trosglwyddiad ieithyddol; twf yn niferoedd / canrannau siaradwyr ac ati) na chymunedau sydd heb hynny. Gellir ystyried darlledu traddodiadol fel mesurydd o ymrwymiad y wladwriaeth - neu'r lefel o lywodraeth sydd â chyfrifoldeb am ddarlledu - at yr iaith leiafrifol (oherwydd ei gost mewn adnoddau technegol a dynol) ac mae cefnogaeth lywodraethol wrth ddarparu adnoddau, statws a chyfleoedd i ddefnyddio'r

[1] Almaeneg (SudTirol, yr Eidal), Basgeg, Catalaneg, Cymraeg, Ffriseg, Galisieg, Gwyddeleg, Swedeg (y Ffindir).

iaith yn un o'r ffactorau pwysicaf sydd yn gwneud y gwahaniaeth rhwng dirywiad a chynaliadwyedd iaith.

Bu gwasanaeth darlledu cyhoeddus yn allweddol i ddarlledu mewn ieithoedd lleiafrifol ac mae hyn yn parhau hyd heddiw. Dim ond dwy sianel deledu breifat sydd yn darlledu i gymuned iaith leiafrifol: Telesudtirol i'r siaradwyr Almaeneg yn yr ardal honno o ogledd yr Eidal sydd yn cynhyrchu tua 25 awr yr wythnos o raglenni ei hun ac yn defnyddio cynnyrch sianeli Almaeneg eraill weddill yr wythnos, a TV Breizh yn Llydaw sydd yn darlledu ychydig iawn o oriau o Lydaweg y flwyddyn erbyn hyn. Mae cwynion cyson am ddiffyg Llydaweg TV Breizh ac fel a nodwyd yn Agence Bretagne Presse 'yr unig air o Lydaweg ar y sianel yma bellach yw'r un sydd yn ei henw' [Breizh = Llydaw].

<u>Achos Astudio: Teledu yn yr Iaith Gatalaneg</u>

Catalaneg yw'r unig iaith leiafrifol yn Ewrop sydd yn meddu ar sianel deledu i blant a phobl ifanc.

Nid yw'n syndod mai'r iaith Gatalaneg sydd â'r ddarpariaeth gyfryngol ehangaf o blith yr ieithoedd lleiafrifol: nid yn unig y mae 6-10 miliwn o bobl yn siarad yr iaith (er nad yw niferoedd yn ei hun yn ddigon i gynnal iaith fel a welir yn achos Ocsitaneg sydd â miliynau o siaradwyr yn Ne Ffrainc[2]), ond oddi ar adfer democratiaeth i Sbaen ar ddiwedd y 1970au gwelwyd twf aruthrol – chwyldro yn wir – ym maes y cyfryngau Catalaneg, fel mewn sawl sector arall o fywyd cyhoeddus yn sgil mabwysiadu polisiau rhagweithiol, radical a blaengar wrth geisio normaleiddio'r iaith yn ei thiriogaeth draddodiadol.

Yn ogystal â datblygu gwasg brint yn yr iaith, crëwyd hefyd gorfforaeth ddarlledu (Corporació catalana de radio i televisió) ym 1982 ac fe ddechreuodd y sianel deledu Catalaneg gyntaf (TV3) ddarlledu ym 1983. Crëwyd nifer o orsafoedd radio hefyd. Yna ym 1989, ychwanegwyd at y gwasanaeth teledu Catalaneg gyda sianel newydd Canal 33. Parhaodd TV3 i fod yn sianel gyffredinol gydag apêl eang ac amcan Canal 33 (a ailenwyd yn ddiweddarach yn '33') oedd darparu rhaglenni o ddiddordeb arbenigol a bod yn llwyfan i gynnyrch arbrofol neu *niche.*

Crëwyd y sianel lloeren TVC Internacional (TVCi) ym 1997 i roi gwasanaeth teledu Catalaneg i'r boblogaeth sydd yn siarad yr iaith honno y tu allan i'r diriogaeth draddodiadol, sef mewn rhannau eraill o Sbaen ac Ewrop ac erbyn heddiw mae hefyd ar gael i wasanaethu'r diaspora Catalaneg yng ngogledd, canolbarth a de America.

Ym 2003 sefydlwyd sianel deledu arall gan y Gorfforaeth, sef 3/24 i ddarlledu gwasanaeth newyddion 24 awr. Mae'r gorfforaeth yn darparu ei gwasanaeth newyddion ei hun ers y cychwyn ar gyfer eu gwasanaethau teledu a radio a bellach ar gyfer y we a rhyngweithiol.

---

[2] Nid oes cyfrifiad swyddogol i unrhyw iaith leiafrifol yn Ffrainc ond mae arolygon a thystiolaeth arall yn gyson yn eu canfyddiadau fod rhai miliynau o siaradwyr Ocsitaneg ar hyd De Ffrainc mewn tiriogaeth sydd yn estyn o'r Pyrennees i'r Alpau, ac o'r massif central i fôr y Canoldir. Fodd bynnag, mae presenoldeb, defnydd a throsglwyddiad iaith yn hynod isel a'r rhagolygon yw y bydd y liynau hyn yn troi yn rhai degau o filoedd yn ystod yr ugain mlynedd nesaf.

Yn 2005, sefydlwyd sianel 300 (digidol yn unig) sydd yn darlledu cyfresi drama ac operâu sebon yn ddi-dor o 9.30 y nos tan 7.00 y bore, sef y cyfnod pan nad yw'r sianel i blant a phobl ifanc yn darlledu.

K3: Sianel Deledu i Blant a Phobl Ifanc yn yr Iaith Gatalaneg

Yr ychwanegiad arwyddocaol at y portffolio o ddarlledu teledu yn yr iaith Gatalaneg yng nghyd-destun yr ymgynghoriad hwn oedd sefydlu sianel deledu i blant a phobl ifanc yn 2001.

Platfform digidol

Mae K3 yn darlledu 14.5 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos, ac ar y platfform digidol mae'n darlledu rhwng 7am a 9.30pm (gyda sianel arall, 300, gweler uchod yn darlledu rhwng 9.30pm a 7am).

Simulcast ar y platfform analog

Ar y platfform analog, mae K3 yn rhannu'r gofod gyda 33, ac yn ystod yr wythnos waith mae'r simulcast gyda K3 (i blant) rhwng 7am a 3.30 ac yna o 5pm i 9.30, sef 13 awr y dydd (gyda 33 yn darlledu o 9.30pm hyd 7am a rhwng 3.30pm a 5pm). Ar y penwythnos, mae'r flaenoriaeth yn newid gyda 12-3pm yn oriau plant ar analog a'r gweddill yn oriau i 33.

Cynulleidfa – 'plant' a 'phobl ifanc'

Er mai un sianel deledu yw K3 erbyn hyn gellir adnabod dau grŵp targed clir, sef 'plant' a 'phobl ifanc'. Dechreuodd K3 fel sianel deledu i blant, ac fe sefydlwyd gwefan yn gysylltiedig â un o'i rhaglenni yn 2001, sef **Super3** (www.super3.cat <http://www.super3.cat>). Ers Ebrill 2007 mae gwasanaeth penodol i bobl ifanc wedi ei lansio, sef **3xl.net** (www.3xl.cat <http://www.3xl.cat>). Er bod dwy gynulleidfa, a dwy wefan ar wahân, un sianel deledu sydd.

O edrych ar y safleoedd gwe yma – gweler Atodiad 1 – gellir ystyried fod cynulleidfa darged **Super3** tua 6oed+. Er bod y sianel deledu K3 hefyd yn cynnwys rhaglenni sydd yn apelio at gynulleidfa iau (e.e. Pingu, Nodi) mae'r wefan yn ymddangos fel bod angen sgiliau sylfaenol llythrennedd i'w defnyddio. Byddai hyn yn ei gosod yn agos at oedran Planed Plant, yn hytrach na Planed Plant Bach. Nid yw'n ymddangos fod gan K3 wefan ar gyfer yr oedran meithrin – Planed Plant Bach / Cbeebies.

O edrych ar wefan mae **3xl.net** yn wasanaeth rhyngweithiol sydd wedi ei anelu at bobl ifanc- gweler Atodiad 2. Mae'n ystyried ei hun yn 'fan cyfarfod drwy sgrin deledu a sgrin cyfrifiadur ar gyfer pawb sydd eisiau bod yn rhan o un o'r cymunedau rhithiol ieuenctid mwyaf bywiog yng Nghatalonia'. Mae'r bobl ifanc yn cymryd rhan yn y rhaglen deledu Codi 3xl yn ogystal ag yn y blogs, byrddau neges ac yn y blaen ar y safle. Gellir gwylio rhaglenni o'r safle hefyd.

Heb astudio'r ddwy wefan yn fanwl iawn, mae'n ymddangos fod gwahaniaeth trawiadol yn y math o gyfathrebu a gynigir i'r bobl ifanc drwy 3xl.net a'r hyn a gynigir i blant drwy Super3.cat. Mae gwefan y bobl ifanc yn rhoi cyfle i'w defnyddwyr ddod i adnabod ei gilydd a chreu cynnwys tra bo'r wefan ar gyfer plant yn canolbwyntio ar berthynas y plentyn unigol a'r sianel/gwefan/rhaglen/cymeriad.

Graddio rhaglenni ar gyfer oedran penodol
Does dim cyfeiriad amlwg yn y safleoedd gwe at oedran penodol y gynulleidfa darged i'r ddau wasanaeth i blant a phobl ifanc. Fodd bynnag mae gan deledu Catalaneg system o raddio rhaglenni i roi canllaw i'r gynulleidfa beth yw'r oedran isaf y mae'n ystyried sydd yn addas i'r rhaglen. Gyda'r rhan fwyaf o raglenni, does dim oedran yn cael ei nodi (Newyddion ac ati). Mae'r system hon yn debyg iawn i dystysgrifau sinema neu gemau gan mai'r brif swyddogaeth yw gwahaniaethu rhwng rhaglenni plant ifanc iawn, plant, pobl ifanc, a chynnwys i oedolion. Dyma'r rhaniadau oedran: 7 oed, 10 oed, 13 oed, 16 oed a 18 oed. Gweler enghraifft o hyn yn Atodiad 3. Ar gyfer rhaglenni i gynulleidfaoedd ifanc, megis Pingw a Nodi, nid oes nodyn oedran.

I grynhoi, mae gan y gorfforaeth ddarlledu Catalaneg (www.ccrtv.cat <http://www.ccrtv.cat>) chwe sianel teledu sydd yn darlledu yn yr iaith, sef:

- TV3: cyffredinol, apel eang
- 33: arbenigol a chynulleidfaoed niche
- K3: plant a phobl ifanc
- 3/24: newyddion di-dor
- 300: darlledu drama o 9pm i 7am
- TVCi: rhyngwladol

Y cyd-destun Cymreig

Ein barn ni yw y bydd gwasanaeth i blant a phobl ifanc yn sicr o wella'r gwasanaeth cyhoeddus a gynigir gan Awdurdod S4C. O ystyried arferion gwylio teledu gan blant ynghyd â'u defnydd o safleoedd gwe a'r posibiliadau cynyddol drwy ffonau symudol, mae'n amlwg y gall gwasanaeth rhyngweithiol cryf yn yr iaith Gymraeg fod yn ffordd i blant a phobl ifanc ganfod gofodau cyfathrebol newydd i ddefnyddio'i iaith. Wrth ddefnyddio'r achos astudio uchod, rydym wedi ceisio tynnu sylw at yr unig enghraifft sydd o greu gwasanaethau penodol i blant a phobl ifanc mewn iaith leiafrifol, ac er bod sefyllfaoedd y ddwy iaith (Cymraeg a Chatalaneg) yn dra gwahanol, credwn fod budd wrth ystyried rhai o'r trywyddion a'r penderfyniadau a wnaethpwyd yno.

Un o anfanteision y sefyllfa bresennol yn y Gymraeg yw nad yw rhaglenni plant Planed Plant a Phlaned Plant Bach) yn ymddangos ar y Canllaw Rhaglenni Electronig (EPG) wrth chwilio o dan **Kids**. Mae hyn yn anfantais glir wrth i blant symud fwyfwy at wasanaethau a sianeli penodol yn hytrach na bodloni i 'aros eu tro' ar sianeli cyffredinol.

Yn gam neu'n gymwys, mae plant yn gwylio oriau lawer o deledu ac yn defnyddio cyfryngau rhyngweithiol yn drwm. Os nad yw'r iaith Gymraeg yn rhan o'r byd yma bydd yn gynyddol anos i blant a phobl ifanc greu'r cyswllt rhwng eu hiaith nhw a'r byd cyfoes o'u cwmpas.

2. A oes gennych unrhyw sylwadau / beth yw'ch safbwyntiau am yr oriau darlledu a gynigir a'n cynulleidfaoedd targed?

Un o'r anfanteision sydd wedi nodweddu darlledu teledu mewn nifer o ieithoedd lleiafrifol ar gyfnodau gwahanol dros y 40 mlynedd diwethaf yw bod slotiau darlledu i raglenni yn yr iaith wedi bod yn anghyson ac ysbeidiol. Gwelir hyn hyd heddiw yn achos darlledu Gaeleg yn yr Alban ac yn achos nifer o ieithoedd gwannach ar hyd ac ar led Ewrop ble mae brwydr barhaus oherwydd ail-leoli rhaglenni i oriau anghyfleus.

Mae cynnig amserlen gyson a sefydlog yn un o'r elfennau pwysicaf wrth geisio meithrin patrymau gwylio sefydlog. Yn gyffredinol, mae gwylwyr yn cario syniad eithaf cywir o'r math o raglen y byddant yn disgwyl ei gweld ar sianel deledu ar adegau penodol o'r dydd a'r nos. Mae arolygon yn dangos fod y cysyniad o'r trothwy (watershed) yn parhau i fod yn gyfarwydd iawn i wylwyr teledu. Mae hyn yn rhan o'r berthynas rhwng darlledwr a'r gynulleidfa – ac yn rhan o'r ymddiriedaeth rhwng y ddau barti.

Does dim lle i awgrymu fod hyn yn llai gwir yn achos plant: o bosib i'r gwrthwyneb, gan fod amserlen ddyddiol plant yn aml yn sefydlog iawn a bod patrymau cyffredinol rhwng oedran y plentyn a'r cyfnod y caiff wylio/bydd yn gwylio teledu neu yn rhyngweithio ar y we, o ran amser y dydd, diwrnod yr wythnos ac wythnosau'r flwyddyn.

Byddai'n synhwyrol felly i greu pecynnau neu frandio sydd yn targedu oedrannau fel gall plentyn neu berson ifanc 'gario syniad o'r amserlen' sydd yn eu galluogi i wneud penderfyniad cyflymach i wylio rhaglen Gymraeg, heb orfod oedi i feddwl a chwilio tybed beth sydd mlaen. Mae ymchwil i deyrngarwch ieithyddol ac i ddefnydd iaith yn awgrymu mai un o'r ffactorau sydd yn atal siaradwyr iaith leiafrifol rhag defnyddio'r iaith honno yw'r ofn neu'r realiti nad yw'r dewis yn gyfartal. Er enghraifft, os nad oes ffydd gan y siaradwr bod ochr Gymraeg y wefan yn mynd i roi gwybodaeth gywir, ddibynadwy a chyfredol iddo/i, bydd yn defnyddio'r fersiwn Saesneg. Yn yr un ffordd, os na fydd cysondeb yn yr amserlen, mae'n debygol iawn bydd gwylwyr ifanc yn colli amynedd gyda'r gwasanaeth Cymraeg ac yn ffafrio cysondeb gwasanaethau yn Saesneg. Bydd rhai wrth gwrs yn dyfalbarhau, ond lleiafrif fydd y rheiny.

Wrth baratoi gwasanaethau i blant, felly, mae unrhyw rwystr (e.e. peidio cael cysondeb) yn mynd i amharu ar rwyddineb y siaradwr i ddewis yr iaith honno, ac o ganlyniad, mae'n bosib y bydd llai yn defnyddio'r gwasanaethau hynny.

O ran y tri grŵp oedran a awgrymir, gellid meddwl fod newid mwy sylweddol yn digwydd i fywydau plant (drwy'r system addysg yn bennaf) yn 4 oed ac yn 11 oed yn hytrach nac yn 5 oed ac yn 10 oed. Eto, termau arwyddol sydd yn y ddogfen ac mae trawsgroesi ynghyd a'r elfen 'ddyheadol' o uniaethu â chymeriadau ychydig yn hŷn yn hytrach na rhai o'r un oedran yn amlwg iawn o fewn patrymau gwylio plant a phobl ifanc. O gyfeirio at y grwpiau oedran yn y deunydd marchnata, efallai gall problemau godi am y rheswm dyheadol hwn. Go brin byddai person ifanc 12/13 oed am uniaethu gyda rhywbeth i blant 10 oed gan y byddai hynny yn cynrychioli 'cam yn ôl' tua'r ysgol gynradd yn hytrach na cham ymlaen tua at fod yn oedolyn ifanc.

Wrth ystyried cynnwys rhaglenni a gwasanaethau, mae'n bosib y gallai nodi cynulleidfa darged fel 10-15 oed gyfyngu ar y math o driniaeth a ellir ei roi i drafod materion fel rhyw, cyffuriau, perthnasau. Sylwadau cyffredinol yw'r rhain yn hytrach na barn arbenigol.

Yn y byd marchnata a hysbysebu, cyfeirir at y grŵp 'Tweens' (8-12/13 oed) sef y plant sydd ddim yn eu harddegau eto ond sydd â chwaethau gwahanol i blant iau.

Byddem am gwestiynu safbwynt yr Awdurdod fel a nodir ym mharagraff 3.2.6 'Gan mai rhieni sy'n dewis yr hyn y bydd plant meithrin yn ei wylio ar y cyfan, … efallai na fydd angen marchnata gwasanaeth uniongyrchol ar gyfer y gynulleidfa honno'. Gall plant ifanc iawn 2-3 oed adnabod brandiau yn rhwydd ac adnabod iconau sgrin fel Cbeebies, Planed Plant Bach yn ogystal â'r cymeriadau sydd ar y rhaglenni. Gallant fynegi barn pa un maent am wylio (hyd yn oed os na chaniateir hynny gan y rhieni). Ni ddylid meddwl o angenrheidrwydd nad oes potensial i dargedu'r gynulleidfa hon yn uniongyrchol yn ogystal â thrwy eu rhieni. Mae niferoedd sylweddol o blant meithrin hefyd yn gymdeithasol iawn - yn mynychu cylchoedd meithrin a meithrinfeydd ac yn ymwybodol o'r brandio sydd gan eu cyfoedion ar ddillad, bocsys bwyd ac ati.

3. Yn eich barn chi, beth fyddai'r nodweddion allweddol pwysicaf ar gyfer gwasanaethau teledu i Blant a ddarparir gan S4C?

Dylai'r gwasanaeth fod yn aml-blatfform, Cymraeg, cyson o ran amserlen, eang o ran diddordebau, a phenodol o ran cynulleidfa darged. Dylid gwneud cyswllt pendant gydag arferion cyfryngol plant a phobl ifanc gan ddefnyddio safleoedd gwe. Un gwendid amlwg yn y ddarpariaeth ryngweithiol bresennol i blant yw nad oes safleoedd siarad ar gyfer plant ysgol gynradd drwy gyfrwng y Gymraeg (tebyg i Club Penguin www.clubpenguin.com <http://www.clubpenguin.com>). Wrth i blant fedru creu safle eu hunain drwy Bebo, gallant gyfathrebu â'u ffrindiau go iawn yn ogystal â 'chwrdd' â ffrindiau rhithiol drwy'r rhyngwyneb honno, ond hyd y gwyddom nid oes safle parod i blant sydd yn rhy ifanc i greu Bebo ar eu pennau eu hunain i gyfathrebu gyda phlant eraill yn y Gymraeg. Efallai y dylid ystyried hyn, o fewn y canllawiau a argymhellir gan y Child Exploitation & Online Protection Centre (<http://www.ceop.gov.uk/>) a lansiwyd yn Ebrill 2006.

Dylai'r gwasanaethau hyn gynnig cyfleoedd i blant a phobl ifanc gynyddu eu hymwybyddiaeth a'u sgiliau o lythrennedd cyfryngol. Gallai hyn gymryd ffurf o fuddsoddi mewn sgiliau cynhyrchu i blant a phobl ifanc yn ogystal â dangos sut mae rhaglenni yn cael eu gwneud, sut y dylid ymddwyn ar lein ac yn y blaen.

O ran cydbwysedd rhwng cynnyrch a grëir yng Nghymru a'r cynnyrch sydd yn cael ei addasu i'r Gymraeg, dylid anelu at gydbwysedd sydd yn parhau i gynnal a datblygu sector greadigol Gymraeg cyflawn o syniadau gwreiddiol i gynnyrch gorffenedig ochr yn ochr â dangos addasiadau o gynnyrch sydd yn bodoli mewn ieithoedd eraill (Saesneg, yn bennaf). Mae gwerth amlwg i gynnyrch gwreiddiol; ond mae addasiadau hefyd, yn ffordd o gyfoethogi profiad y gwyliwr a'r defnyddiwr. Mae clywed cymeriadau ym maes animeiddio, pypedau ac ati yn siarad Cymraeg yn rhan bwysig wrth i blant ifanc wneud cysylltiadau rhwng eu chwarae dychmygus gyda theganau a'r rhaglenni y maent yn eu gwylio (neu, yn fyr, ydy Spiderman yn gallu siarad Cymraeg). Gall hyn gyfrannu at gryfhau hunaniaeth ieithyddol plentyn ifanc,

neu o leiaf caniatáu i ddau fyd gwrdd: sef byd y nwyddau brand sydd o'u cwmpas ymhobman a byd yr iaith Gymraeg.

Gellir gweld fod cryfder yn y cydbwysedd presennol rhwng creu cymeriadau Cymraeg (e.e. Pentre Bach), llwyddiant wrth droi cymeriadau Cymraeg gwreiddiol yn rhai rhyngwladol (e.e. Sam Tân) ac addasu cynnyrch rhyngwladol/Saesneg (e.e. Bob y Bildar). Fodd bynnag, yn wyneb y prinder nwyddau brand atodol (e.e. pyjamas ac ati) sydd i'w cael i gryfhau presenoldeb y cymeriadau Cymraeg - ag eithrio llyfrau darllen - tybed nad oes angen cryfhau'r berthynas rhwng y diwydiant cyhoeddi a'r diwydiant darlledu er mwyn gweithio ar strategaeth fwy cydlynol. Er enghraifft, mae'r nifer o lyfrau a CDRom ar gyfer oedran meithrin sydd yn seiliedig ar gyfer Rala Rwdins yn drawiadol o niferus ond prin iawn yw bodolaeth y cymeriadau hyn ar deledu.

4. A oes gennych unrhyw sylwadau am yr opsiynau a nodwyd ym mharagraff 4 ac yn arbennig, y dewis rhwng opsiwn 1 a 2? A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech i ni eu hystyried am y mater hwn?

Mae'r patrwm a gynigir yn Opsiwn 1 yn ddryslyd. Am y rhesymau a nodwyd uchod ynglŷn â phwysigrwydd cysondeb, yn ein tyb ni Opsiwn 2 fyddai yn rhoi'r gwasanaeth gorau i blant a phobl ifanc yn y Gymraeg.

O ran anfantais yr opsiwn hwnnw i ddarllediadau o'r Cynulliad Cenedlaethol, mae'n ymddangos i ni - ar sail arferion personol yn hytrach nac unrhyw ffynhonnell arall - y byddai'n fwy cyfleus i gyrchu'r darllediadau hynny drwy'r we yn hytrach na thrwy ddarlledu llinellol presennol. Er bod Sky+, bocsys Freeview sy'n recordio a theclynau VCR eraill yn dod yn fwyfwy poblogaidd (gweler adroddiadau Ofcom i'r farchnad gyfathrebu), ac o ganlyniad i hynny daw'n hwylusach i recordio a chreu amserlen wylio bersonol (fel y gall pobl sydd yn gweithio wylio rhaglenni a ddarlledir yn ystod y diwrnod gwaith), mae darpariaeth band llydan drwy'r we yn cynnig manteision ychwanegol a pherthnasol iawn i'r math hwn o ddeunydd gwylio o raglen. Ymysg y manteision sydd i ddarlledu ar lein yn erbyn darlledu llinol mae:

- y gallu i benderfynu gwylio rhaglen yn ôl syllol, neu *wedi* iddi gael ei 'darlledu' yn hytrach nac o flaen llaw, efallai wedi clywed adroddiad ar raglen neu drwy gyfrwng arall;
- y gallu chwilio'n rhwyddach am yr union raglen rydych am ei gweld;
- y gallu i gyfuno technolegau, e.e. y cofnod ysgrifenedig gyda'r darllediad.

Mae'r un ymchwil gan Ofcom yn dangos fod band llydan bellach ar gael i ganran gynyddol o'r boblogaeth, ac yn ein tyb ni, bydd yn symud o S4C2 i fandllydan yn gwella hygyrchedd i wasanaeth y Cynulliad yn hytrach na'i waethygu.

Gellid ystyried hyn felly yn gam positif i'r gwasanaeth hwnnw. Ar yr un pryd, efallai y gellid cynyddu'r rhaglenni fewn gwasanaeth S4C digidol a S4C i blant a phobl ifanc sydd yn trafod gwaith y Cynulliad ac yn cynyddu ymwybyddiaeth y boblogaeth gyfan (gan gynnwys yr ifanc) mewn gwleidyddiaeth a dinasyddiaeth.

5. A ydych yn credu y byddai darparwr trydydd parti yn fodlon darparu gwasanaeth teledu Cymraeg i Blant o natur debyg i'r un a amlinellwyd uchod, ar sail masnachol?

Fel a nodwyd uchod, mae darlledu mewn ieithoedd lleiafrifol yn ddyledus iawn i'r cysyniad a'r arfer o ddarlledu cyhoeddus ar draws Ewrop. Yn wir, mae nifer o'r gwasanaethau teledu mewn ieithoedd lleiafrifol - ac yn benodol y rhai yn Sbaen - wedi eu sylfaenu ar Ddeddfau Normaleiddio Iaith fel rhan o ystod eang o bolisïau i ddatblygu'r iaith ar draws gwahanol sectorau fel addysg, gweinyddu ac ati. Methiant fu'r ymgais i ddarparu gwasanaeth Llydaweg drwy'r sianel breifat TV Breizh. Mae'n annhebygol iawn y byddai incwm drwy hysbysebion na thanysgrifiad yn ddigonol i gynnal gwasanaethau yn y Gymraeg i blant a phobl ifanc o'r safon y dylid ei ddisgwyl.

6. A allwch chi feddwl am randdalwyr allweddol nas cynhwyswyd yn Atodiad A?

Darlledwyr mewn ieithoedd lleiafrifol eraill.

Prifysgolion a Chanolfannau Ymchwil sydd ag arbenigedd i Astudiaethau Plentyndod, Astudiaethau Sosioieithyddol ac Astudiaethau Cyfryngau, Marchnata a Hysbysebu.

Sectorau eraill sydd yn cyhoeddi cynnwys creadigol ar gyfer plant a phobl ifanc (Gweisg, awduron, cwmnïau drama…)

7. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech i ni eu hystyried o ran yr Ymgynghoriad hwn ynghylch sianel deledu Gymraeg newydd i Blant?

Nac oes.

ATODIADAU

Atodiad 1: gwefan teledu Catalaneg i blant **Super3.cat**

Atodiad 2: gwefan teledu Catalaneg i bobl ifanc **3xl.cat**



Sefydlwyd Ebrill 2007
Mae 3XL.cat yn ofod cyflawn ar gyfer cyfathrebu, cysylltu ac adloniant i bobl ifanc. Mae'n **cyfathrebu** drwy'r rhaglen deledu Codi 3XL, sydd ar gael ar y we ac ar deledu, a ble mae'r bobl ifanc a'u dewis nhw o themâu yn cymryd rhan flaenllaw. Mae'n **cysylltu** drwy'r tudalennau personol, y grwpiau siarad a'r blogs y gall pobl ifanc eu creu drwy wefan www.3xl.cat. Ac mae'n **adloniant** drwy'r cyfresi drama, animeiddio, cystadlaethau, jôcs ac ati.
Drwy'r sgrin deledu a sgrin y cyfrifiadur mae 3XL.cat wedi dod yn fan cyfarfod sydd yn agored i bawb sydd eisiau bod yn rhan o un o gymunedau rhithiol pobl ifanc mwyaf bywiog Catalonia.

El 3XL.cat <http://www.3xl.cat> es un portal totalment innovador, diferent de qualsevol altre que es pugui trobar a la xarxa.
Abril 2007
3XL.cat es un espai global de comunicació, relació i entreteniment obert a adolescents i joves. De comunicació, a través del programa televisiu Codi 3XL, que es pot veure simultàniament per televisió i per internet, on els protagonistes són els joves i els temes que ells proposen. De relació, a partir de la que s'estableix a través de les pàgines personals, els fòrums i els blogs que es poden crear al web

www.3xl.cat. I d'entreteniment, amb les sèries d'anime, ficció i animació, concursos, propostes d'accions, jocs online, etc.
A través de la pantalla de televisió i de la pantalla de l'ordinador, el 3XL.cat es converteix en un punt de trobada obert a tots aquells que vulguin formar part d'una de les comunitats virtuals juvenils més actives de Catalunya.

El 3XL.cat <http://www.3xl.cat> es un portal totalment innovador, diferent de qualsevol altre que es pugui trobar a la xarxa.

Atodiad 3: Enghraifft o sianel deledu Catalaneg (K3, sianel blant) yn defnyddio cod oedran ar gyfer addasrwydd rhaglenni i'r gynulleidfa. Nodir yr oedran isaf yn y sgwariau melyn isod.

http://www.tv3.cat/ptvcatalunya/tvcProgramacio.jsp?data=20070720&canal=K3